CAMAC HARPS
TELYNAU VINING WALES·CYMRU



# Cardiff Camac Harp Weekend

Isabelle Moretti



## 9-10 March 2019

## Cardiff Metropolitan University

Western Avenue - Cardiff - CF5 2YB

20th anniversary

## EVENTS

Harp exhibition
Concerts
Workshops
Ensembles
Masterclasses
Hands-on-harp for beginners

Making harps in France since 1972

THE EXCELLENCE OF FRENCH SAVOIR-FAIRE · ENTREPRISE DU PATRIMOINE VIVANT · EPV

## PROGRAMME

www.camacharps.co.uk

# Welcome!

Welcome to the Cardiff Camac Harp Weekend 2019.

This year is special for us: it marks the twentieth anniversary of the founding of Telynau Vining Harps, which started supplying Camac harps in the UK and Ireland in 1999. Since then we have grown in strength and in 2017, to correspond with the opening of our new shop in Cardiff, we were honoured to be appointed as one of Camac's exclusive worldwide partners.

To celebrate our anniversary, we have devised an exceptional programme for this year's harp weekend. We are delighted that world-renowned harpist Isabelle Moretti has agreed to join us, not only to give two masterclasses but also for an evening concert, to be held in the Impressionists Gallery at the National Museum. We could not think of a more appropriate venue. It promises to be a fabulous evening and, as places are strictly limited, we urge you to book early for what we are sure will be an exceptional recital.



As well as Isabelle, we have an amazing array of talent again this year. And there is something to suit all ages - children and adults; all grades - from complete starters to professional harpists; and all styles - from classical to pop and traditional music.

Our Sunday afternoon concert this year will feature Claire Jones, a former harpist to the Prince of Wales and an ever popular performer and teacher. Claire will be joined by percussionist Chris Marshall and, in addition to their concert appearance, Claire and Chris will give a variety of workshops throughout the weekend.

And that's not all! Caryl Thomas, Head of Harp at The Royal Welsh College of Music & Drama, has kindly agreed to give a masterclass also. All our masterclasses are free, but places for those wishing to perform are strictly limited so e-mail me early if you would like to put your name down. There will be workshops, too, from Natasha Gale and Heather Downie, both popular and experienced teachers.

As ever, we are indebted to our friends from Camac France for their unstinting support. We extend a warm welcome to Jakez Francois, Helen Leitner and Guillaume Tijou. Once again, this year, we are able to offer owners of Camac harps free harp regulations by Camac's own technician; but places are limited, so please book early (the first 10 slots are reserved for those booking a weekend/day ticket).

All the details are in the following pages. Please book by post using the enclosed form or look on-line at www.camacharps.co.uk

We hope you enjoy the weekend and look forward to welcoming you in person.

Best wishes



# Croeso!

Croeso i Benwythnos Telynau Camac Caerdydd 2019.

Mae eleni yn flwyddyn arbennig i ni: rydym yn nodi ugain mlynedd ers sefydlu Telynau Vining Harps, a ddechreuodd gyflenwi telynau Camac yn y DU a'r Iwerddon yn 1999. Ers hynny rydym wedi tyfu'n llwyddiannus ac yn 2017, i gydfynd ag agor ein siop newydd yng Nghaerdydd, cawsom y fraint o gael ein hapwyntio fel un o bartneriaid unigryw byd-eang Camac.

I ddathlu ein penblwydd rydym wedi cynllunio rhaglen ardderchog ar gyfer ein penwythnos telynau eleni. Rydym wrth ein bodd fod y delynores fyd-enwog Isabelle Moretti wedi cytuno i ymuno â ni, nid yn unig i roi dau ddosbarth meistr ond hefyd i fod yn rhan o gyngerdd gyda'r hwyr, i'w gynnal yn Oriel yr Argraffiadwyr yn yr Amgueddfa Genedlaethol. Ni allwn feddwl am leoliad fwy priodol. Mae'n addo i fod yn noson wych a chan fod cyfyngiadau yn nifer y bobl a all fod yno rydym yn eich annog i archebu'n gynnar ar gyfer datganiad sy'n siwr o fod yn un eithriadol.

Yn ogystal ag Isabelle, mae amrywiaeth eang o dalent yn cymryd rhan eleni eto. A bydd rhywbeth at ddant pob oedran - plant ac oedolion; pob gradd - o gychwynnwyr pur i delynorion proffesiynol; a phob arddull - o'r clasurol i'r poblogaidd a cherddoriaeth draddodiadol.

Claire Jones, cyn delynores i Dywysog Cymru a pherfformwraig ac athrawes boblogaidd iawn fydd yn ein diddanu yn ein cyngerdd ar y prynhawn Sul. Bydd Chris Marshall yr offerynnwr taro, yn ymuno â Claire ac yn ogystal â'u hymddangosiad yn y cyngerdd bydd Claire a Chris yn cynnal amryw o weithdai trwy gydol y penwythnos.

Ac mae mwy na hynny! Mae Caryl Thomas, Pennaeth Telyn yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru wedi cytuno i gynnal dosbarth meistr hefyd. Mae'r holl ddosbarthiadau meistr yn rhad ac am ddim, ond mae lleoedd i'r rhai sy'n dymuno perfformio yn gyfyngedig felly anfonwch ebost ataf yn gynnar os hoffech gyflwyno'ch enw. Cynhelir gweithdai hefyd gan Natasha Gale a Heather Downie, y ddwy yn athrawon poblogaidd a phrofiadol.

Fel bob amser, mae'n dyled yn fawr i'n ffrindiau o Camac Ffrainc am eu cefnogaeth hael. Rhown groeso cynnes i Jakez Francois, Helen Leitner a Guillaume Tijou. Unwaith eto eleni rydym yn gallu cynnig cymwysiadau am ddim i berchnogion telynau Camac, gan dechnegydd Camac ei hun; ond eto mae'r lleoedd yn gyfyngedig felly os gwelwch yn dda archebwch yn gynnar (cadwir y deg lle cyntaf ar gyfer y rhai sy'n archebu tocyn penwythnos/diwrnod).

Ceir yr holl fanylion ar y tudalennau canlynol. Byddwch cystal ag archebu trwy ddefnyddio'r ffurflen amgaeëdig neu edrychwch ar-lein ar www.camacharps.co.uk

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r penwythnos ac edrychwn ymlaen at eich croesawu.

Gyda dymuniadau gorau

**Elen Vining**
Telynau Vining Harps
116B Heol Pantbach, Llwynbedw, Caerdydd CF14 1UE
029 2062 0900
info@camacharps.co.uk - www.camacharps.co.uk

# Concerts

Telynau Vining Harps are proud to present:

# Cyngherddau

Mae Telynau Vining Harps yn falch i gyflwyno:

Saturday, 9 March 2019 at 7.00pm
(doors open at 6.15pm)

National Museum Cardiff, Cathays Park, Cardiff CF10 3NP

Dydd Sadwrn, 9 Mawrth 2019 am 7.00yh
(drysau'n agor am 6.15yh)

Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP



## ISABELLE MORETTI

An icon of the harp today, Isabelle Moretti is feted across the world for her strong charisma on stage and her powerful and refined way of playing.

Isabelle Moretti yw eicon y delyn heddiw a gwneir yn fawr ohoni ar draws y byd am ei charisma cryf ar y llwyfan a'i dull pwerus a chwaethus o chwarae

"For a composer, there is no more intense emotion than to hear their work performed as they would dream of doing themselves. Musically, everything was as if it could not be any other way, and I didn't know what to admire the most: the beauty of the sound, the stylistic perfection, the depth and eloquence in her playing. It was on that evening that I knew that Isabelle Moretti is one of the greatest artists I have ever been privileged to meet."

Philippe Hersant Composer

## Tickets/Tocynnau: £12

(£8 for senior citizens, students and children under 16)
(£8 i bobl hŷn, myfyrwyr a phlant o dan 16)

Book on-line at www.camacharps.co.uk or by telephone on 029 2062 0900.
Archebwch ar-lein yn www.camacharps.co.uk neu drwy ffonio 029 2062 0900.

# Concerts | Cyngherddau

Telynau Vining Harps are proud to present:

Mae Telynau Vining Harps yn falch i gyflwyno:

Sunday, 10 March 2019 at 5.00pm

School of Management, Cardiff Metropolitan University,
Western Avenue, Cardiff CF5 2YB

Dydd Sul, 10 Mawrth 2019 am 5.00yp

Ysgol Rheolaeth, Prifysgol Metropolitan Caerdydd,
Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YB



## CLAIRE JONES AND CHRIS MARSHALL

An evening with Claire Jones is a unique. Audiences are warmed, touched and inspired by this world-class performer. As an ambassador for her instrument, she brings the harp to a wider audience and gives people of all ages a truly special concert experience.

Claire Jones performs a variety of well-known pieces, many from her UK chart-topping albums as well as many other famous works. She will be joined by some very special guests during the concert, including renowned percussionist and composer Chris Marshall, and the Claire Jones String Ensemble.

Mae noswaith gyda Claire Jones yn brofiad rhyngweithiol ac unigryw. Caiff y gynulleidfa brofiad twymgalon, emosiynol ac ysbrydoledig gan y berfformwraig o'r radd flaenaf hon. Fel llysgennad i'w hofferyn mae hi'n sicrhau bod cynulleidfa ehangach i'r delyn ac mae'n rhoi profiad cyngerdd arbennig iawn i bobl o bob oed.

Bydd Claire Jones yn perfformio amrywiaeth o ddarnau adnabyddus, llawer ohonynt o'i disgiau sydd wedi bod ar frig siartiau'r DU yn ogystal â gweithiau enwog eraill. Yn ystod y cyngerdd yn ymuno â Claire bydd gwesteion arbennig iawn yn cynnwys yr offerynnwr taro a'r cyfansoddwr enwog Chris Marshall, ac Ensemble Llinynnol Claire Jones.

## Tickets/Tocynnau: £12

(£8 for senior citizens, students and children under 16)
(£8 i bobl hŷn, myfyrwyr a phlant o dan 16)

Book on-line at www.camacharps.co.uk or by telephone on 029 2062 0900.
Archebwch ar-lein yn www.camacharps.co.uk neu drwy ffonio 029 2062 0900.

# The tutors | Y tiwtoriaid

## Heather Downie

Heather has always had a love of Scottish music and has been singing for as long as she can remember. Her passion grew while working with the late Martyn Bennett, after which she decided that a career in traditional music would be her goal. At the age of 15, Heather began playing the Scottish harp and was immediately accepted into Splore, the traditional music course at the Aberdeen International Youth Festival. Having graduated in 2008 with a first class honours degree from The Royal Scottish Academy of Music and Drama, studying harp with Wendy Stewart and piano with Mary McCarthy and James Ross, Heather went on to complete a postgraduate diploma in Scottish music performance under the guidance of Corrina Hewat. A finalist in the BBC's Young Traditional Musician of the Year in 2015, Heather has travelled extensively in Scotland and her music has taken her as far afield as Germany, Denmark, Latvia and New York, playing for dignitaries such as Jack McConnell and Prince Albert of Monaco. She also provided backing for Tom Conti's rendition of A Man's Man during Tartan week in America in 2006, returning there in 2009. Heather also has an interest in composition and Scottish history, folklore and the roots of the songs and tunes in her repertoire. With more than ten years teaching experience both in schools and with individual pupils, Heather currently lectures at the Royal Conservatoire of Scotland.



Ers erioed mae Heather wedi caru cerddoriaeth o'r Alban a dydy hi ddim yn cofio adeg pan nad oedd hi'n canu. Tyfodd ei hangerdd tra'n gweithio gyda'r diweddar Martyn Bennett, ac ar ôl hyn penderfynodd mai ei huchelgais fyddai gyrfa mewn cerddoriaeth traddodiadol. Pan yn 15 oed, cychwynnodd ganu'r delyn Albanaidd ac fe'i derbyniwyd ar unwaith i Splore, y cwrs cerddoriaeth traddodiadol yng Ngŵyl Ieuenctid Rhyngwladol Aberdeen. Graddiodd yn 2008 gydag Anrhydedd dosbarth cyntaf o Academi Cerdd a Drama Brenhinol Yr Alban, ble roedd wedi astudio'r delyn gyda Wendy Stewart a'r piano gyda Mary McCarthy a James Ross; yna aeth ymlaen i gwblhau diploma ôl-radd mewn perfformio cerddoriaeth Albanaidd dan gyfarwyddyd Corrina Hewat. Llwyddodd i gyrraedd rownd derfynol Cerddor Traddodiadol Ifanc y BBC yn 2015, ac mae hi wedi trafaelio'n eang yn Yr Alban ac mae ei cherddoriaeth wedi ei chymryd mor bell â'r Almaen, Denmarc, Latfia ac Efrog Newydd, yn chwarae i bwysigion fel Jack McConnell a'r Tywysog Albert o Monaco. Mae hi hefyd wedi darparu cerddoriaeth wrth gefn ar gyfer fersiwn Tom Conti o A Man's Man yn ystod wythnos Tartan yn America yn 2006, gan ddychwelyd yno yn 2009. Mae gan Heather hefyd ddiddordeb mewn cyfansoddi, a hanes a chwedloniaeth Yr Alban, a gwreiddiau'r caneuon a'r tonau yn ei repertoire. Gyda mwy na deng mlynedd o brofiad addysgu mewn ysgolion a chyda disgyblion unigol, ar hyn o bryd mae Heather yn darlithio yng Nghonservatoire Brenhinol Yr Alban.



## Natasha Gale

Natasha Gale is a young professional harpist from Kent who graduated from The Royal Birmingham Conservatoire and studied under Gabriella Dall'olio, Catherine White and Eleanor Turner. Natasha has performed as a solo and orchestral harpist around Birmingham and in London and the West Country, playing frequently with the Wolverhampton Symphony Orchestra and the Cheltenham Symphony Orchestra. She is currently harp tutor for several schools in the Cheltenham area and the Cotswolds, including Cheltenham College and Dean Close School, and is part of The Abrazo Duo with flautist Ellena Taylor. From her work in the UK Harp Association co-organising the Wild Strings pop and harp festival in 2018, Natasha discovered a passion for finding new ways of teaching new harpists, experimenting with jazz and pop harp, and exploring the full range of what is possible on the harp.

Telynores broffesiynol ifanc yw Natasha Gale o Swydd Caint a raddiodd o Gonservatoire Brenhinol Birmingham ble astudiodd dan Gabriella Dall'olio, Catherine White ac Eleanor Turner. Mae Natasha wedi perfformio fel telynores unigol ac mewn cerddorfa o amgylch Birmingham ac yn Llundain a Gorllewin Lloegr, yn chwarae'n aml gyda Cherddorfa Symffoni Wolverhampton a Cherddorfa Symffoni Cheltenham. Ar hyn o bryd mae hi'n diwtor telyn mewn sawl ysgol yn ardal Cheltenham a'r Cotswolds, yn cynnwys Coleg Cheltenham ac Ysgol Dean Close; mae hi hefyd yn rhan o'r Abrazo Duo gyda'r ffliwtydd Ellena Taylor. O'i gwaith yng Nghymdeithas Telynau'r DU yn cydlynu'r ŵyl pop a thelynau Wild Strings yn 2018, darganfyddodd Natasha angerdd dros ddod o hyd i ffyrdd newydd o addysgu telynorion newydd, arbrofi gyda thelyn jazz a pop ac archwilio'r ystod lawn o'r hyn sy'n bosibl ar y delyn.

# The tutors | Y tiwtoriaid

## Claire Jones



Britain's best-selling classical harpist, Claire Jones was born in Wales. Following her appointment as Official Harpist to His Royal Highness The Prince of Wales (2007-11), she became a household name for her esteemed performance at the Royal Wedding of the Duke and Duchess of Cambridge.

Solo career highlights include solo and concerto appearances with the world's top orchestras and artists such as the English Chamber Orchestra, Philharmonia Orchestra, Mariinsky Theatre Ballet Orchestra, Zurich Chamber Orchestra, London Mozart Players, Philharmonia, Royal Philharmonic Orchestra, Sir James Galway, Maestro Gergiev, Joshua Bell, Renée Fleming, Sir Neville Marriner, Sir Bryn Terfel, and Alfie Boe to name only a few. She has performed prestigious recitals at Wigmore Hall and Cadogan Hall (London), Capitol Hill (USA), City Hall (Hong Kong), International Harp Festival (Brazil) and at the Millennium Stadium for an audience of 75,000.

Claire is no stranger to the classical charts with her albums Girl With The Golden Harp, Journey, Highrove Suite, and This Love reaching the top of the classical charts. Claire is a firm favourite on Classic FM playlists and her albums have been released worldwide.

Claire has a first class BMus(hons) degree from The Royal College of Music and studied as an MA (Scholar) at the Royal Academy of Music, London. In 2016 she was awarded an honorary Associateship from the Royal Academy of Music for her significant contribution to her profession, and is an international ambassador for jewellery company Clogau.

Ganed Claire Jones yng Nghymru a hi yw'r delynores glasurol sydd wedi gwerthu mwy o ddisgiau na neb. Yn dilyn ei hapwyntiad fel Telynores Swyddogol i'w Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru (2007-11), daeth yn enw adnabyddus i bawb am ei pherfformiad clodwiw ym mhriodas Dug a Duges Caergrawnt.

Mae uchelfannau ei gyrfa yn cynnwys ymddangosiadau unigol a chonsierto gyda phrif gerddorfeydd ac artistiaid y byd megis Cerddorfa Siambr Lloegr, Cerddorfa Philharmonia, Cerddorfa Bale Theatr Mariinsky, Cerddorfa Siambr Zurich, Chwaraewyr Mozart Llundain, Philharmonia, Cerddorfa Frenhinol Philharmonig, Syr James Galway, Maestro Gergiev, Joshua Bell, Renée Fleming, Sir Neville Marriner, Syr Bryn Terfel ac Alfie Boe i enwi ond ychydig. Mae hi wedi cynnal datganiadau llawn bri yn Neuaddau Wigmore a Cadogan (Llundain), Capitol Hill (UDA), Neuadd y Ddinas (Hong Kong), Gŵyl Ryngwladol y Delyn (Brasil) ac yn Stadiwm y Mileniwm i gynulleidfa o 75,000.

Nid yw Claire yn ddieithryn i'r siartiau clasurol gyda'i disgiau Girl With The Golden Harp, Journey, Highrove Suite, a This Love yn cyrraedd brig y siartiau clasurol. Mae Claire yn un o hoff artistiaid Classic FM ac mae ei disgiau wedi eu rhyddhau ar draws y byd.

Enillodd Claire Radd BMus (Anrhydedd) dosbarth cyntaf o'r Coleg Cerdd Brenhinol ac astudiodd fel (Sgolor) MA yn Academi Cerdd Frenhinol Llundain. Yn 2016 dyfarnwyd iddi Cyd-ddarlithyddiaeth anrhydeddus gan yr Academi Gerdd Frenhinol am ei chyfraniad sylweddol i'w phroffesiwn, ac mae hi'n llysgennad rhyngwladol i'r cwmni gemwaith Clogau.

## Chris Marshall



Chris Marshall from Cardiff has performed extensively as a percussionist specialising in World music; he has appeared and recorded with many prestigious orchestras and artists, and has performed on numerous productions in London's West End.

Chris balances his performance schedule with his flourishing career as a composer and arranger. His growing portfolio of compositions includes the music for Heartstrings (no. 1 download on iTunes) which was recorded for Classic FM/ Decca in 2012 and was featured on Claire Jones' album Girl With The Golden Harp. Chris has composed Bluestone and arranged many tracks on Claire's chart-topping album Journey. In addition, Chris has composed music for TV adverts including a track for Clogau, shown internationally, and for Fishermans Friends' currently showing in the USA. He is working on the next TV advert for Clogau to be released later in the year.

Mae Chris Marshall o Gaerdydd wedi perfformio'n helaeth fel offerynnwr taro sy'n arbenigo mewn cerddoriaeth y Byd; mae wedi ymddangos ac wedi recordio gyda llawer o gerddorfeydd ac artistiaid eithriadol ac wedi perfformio ar nifer o gynyrchiadau yn West End Llundain.

Mae Chris yn cydbwyso ei amserlen o berfformio gyda'i yrfa lwyddiannus fel cyfansoddwr a threfnydd. Yn ei bortffolio cynyddol o gyfansoddiadau ceir y gerddoriaeth ar gyfer Heartstrings (lawrlwythiad rhif 1 ar iTunes) a recordiwyd ar gyfer Classic FM/Decca yn 2012 ac a nodweddwyd ar albwm Claire Jones Girl With The Golden Harp. Cyfansoddodd Chris Bluestone a threfnu llawer o draciau ar albwm boblogaidd Claire Journey. Yn ogystal, mae Chris wedi cyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer hysbysebion teledu yn cynnwys trac i Clogau, a ddangoswyd yn rhyngwladol, ac ar gyfer Fishermans Friends a welir ar hyn o bryd yn UDA. Mae'n gweithio ar yr hysbyseb teledu nesaf i Clogau i'w rhyddhau nes ymlaen yn y flwyddyn.

Yn 2017 fe'i comisiynwyd i drefnu ac arwain albwm newydd.

# The tutors | Y tiwtoriaid

In 2017 he was commissioned to arrange and conduct a new album with the Portuguese singer sensation, Yolanda Soares, with whom he has performed recently with at the Tivoli Theatre Lisbon and Colisseum in Porto. He has also been commissioned by the American Youth Harp Ensemble and Choir to compose a special set of works which will be premiered on PBS television in the USA and at Carnegie Hall in 2020.

Chris' career highlights as a percussionist include appearing with the BBC Symphony Orchestra, English National Ballet, London Mozart Players, The Royal Shakespeare Company and the BBC National Orchestra of Wales. Chris has worked on many productions in London's West End and international touring shows in the UK and China; these include: We Will Rock You, Wizard of Oz, Zorro, Carousel, West Side Story, Evita, Love Beyond, Big, and Elf the Musical.

Chris has a passion for playing instruments from all around the world, which has resulted in his performing on numerous recording sessions for TV and film. He also performs as part of C2 duet with his wife, and former Official Harpist to HRH Prince Charles, Claire Jones. This unique duo has travelled extensively throughout the UK and in the USA.

gyda'r gantores penigamp o Bortiwgal, Yolanda Soares, y bu iddo berfformio gyda hi'n ddiweddar yn Theatr Tivoli Lisbon a'r Colisseum yn Porto. Hefyd mae wedi ei gomisiynu gan Gôr ac Ensemble Ifanc Telynau America i gyfansoddi cyfres o ddarnau arbennig a glywir am y tro cyntaf ar deledu PBS yn UDA a Neuadd Carnegie yn 2020.

Uchafbwyntiau gyrfa Chris yw fel offerynnwr taro yn ymddangos gyda Cherddorfa Symffoni'r BBC, Bale Cenedlaethol Lloegr, Chwaraewyr Mozart Llundain, Cwmni Brenhinol Shakespeare a Cherddorfa Genedlaethol Cymru y BBC. Mae Chris wedi gweithio ar lawer o gynyrchiadau yn West End Llundain ac ar sioeau sydd wedi bod ar daith o amgylch y DU a Tseina; mae'r rhain yn cynnwys: We Will Rock You, Wizard of Oz, Zorro, Carousel, West Side Story, Evita, Love Beyond, Big, ac Elf the Musical.

Mae Chris yn angerddol ynghylch chwarae offerynau o bob rhan o'r byd ac mae hyn wedi golygu perfformio ar nifer o sesiynau recordio ar gyfer y teledu a ffilm. Mae hefyd yn chware fel rhan o'r ddeuawd C2 gyda'i wraig, a chyn Delynores Swyddogol i EUB Tywysog Cymru, Claire Jones. Mae'r ddeuawd unigryw yma wedi teithio'n eang ledled y DU ac UDA.

## Isabelle Moretti

An icon of the harp today, Isabelle Moretti is feted across the world for her strong charisma on stage and her powerful and refined way of playing.

Isabelle is invited to perform at the most famous halls and festivals, for example in New York, Amsterdam, Moscow, London, Frankfurt, Paris, Nantes and Caracas. She has performed as a soloist with the Bavarian Radio Symphony Orchestra, the Southwest German Radio Symphony Orchestra, the Orchestre de Chambre de Lausanne, the Orchestre de Chambre de Paris, the Warsaw National Symphony Orchestra, and many more.



Isabelle loves working with her chamber music partners Juliette Hurel, Magali Mosnier, François Leleux, Henri Demarquette, and with the Parisii, Ebène, and Hermès string quartets. Especially dear to her heart is her duo with Dame Felicity Lott: their disc Cantare continues to be a great success.

Highly-committed to expanding the repertoire of her instrument, Isabelle has inspired composers such as Philippe Hersant, Bruno Mantovani, Michèle Reverdy, Thierry Escaich, and Thierry Pécou to write for her.

Isabelle Moretti's rich and varied discography is warmly-praised by the media and critics alike.

An impassioned teacher, Isabelle Moretti gives masterclasses throughout the world, and teaches at the Conservatoire National Supérieur de la Musique et de la Danse de Paris (CNSMD). She is also Visiting Professor at London's Royal Academy of Music.

Isabelle is an Officer of the French National Order of Merit and Officer of the Order of Arts and Letters.

Isabelle Moretti yw eicon y delyn heddiw a gwneir yn fawr ohoni ar draws y byd am ei charisma cryf ar y llwyfan a'i dull pwerus a chwaethus o chwarae.

Gwahoddir Isabelle i berfformio yn y neuaddau a'r gwyliau mwyaf enwog er enghraifft yn Efrog Newydd, Amsterdam, Moscow, Llundain, Frankfurt, Paris, Nantes a Caracas. Mae hi wedi perfformio fel unawdydd gyda Cherddorfa Symffoni Radio Bafaria, Cerddorfa Symffoni Radio De Orllewin Yr Almaen, Orchestre de Chambre de Lausanne, Orchestre de Chambre de Paris, Cerddorfa Symffoni Genedlaethol Warsaw, a llawer mwy.

Mae Isabelle wrth ei bodd yn gweithio gyda'i phartneriaid cerddoriaeth siambr Juliette Hurel, Magali Mosnier, François Leleux, Henri Demarquette, a chyda'r pedwarawdau llinynnol Parisii, Ebène a Hermès. Yn arbennig o agos at ei chalon yw ei deuawd gyda'r Fonesig Felicity Lott: mae eu disc Cantare yn parhau i fod yn llwyddiant mawr.

Yn ymroddgar iawn i ehangu repertoire ei hofferyn, mae Isabelle wedi ysbrydoli cyfansoddwyr fel Philippe Hersant, Bruno Mantovani, Michèle Reverdy, Thierry Escaich, a Thierry Pécou i ysgrifennu iddi.

Canmolir casgliadau recordiau cyfoethog ac amrywiol Isabelle Moretti yn gynnes gan y cyfryngau a'r beirniaid fel ei gilydd.

Yn athrawes angerddol, rhydd Isabelle Moretti ddosbarthiadau meistr ar draws y byd ac mae'n addysgu yn y Conservatoire National Supérieur de la Musique et de la Danse de Paris (CNSMD). Mae hi hefyd yn Athro Gwadd yn Academi Cerdd Frenhinol Llundain.

Mae Isabelle yn Swyddog o Urdd Teilyngdod Cenedlaethol Ffrainc a Swyddog o Urdd y Celfyddydau a Lythrennau.

## Caryl Thomas

Caryl Thomas heads the exciting and thriving harp department at The Royal Welsh College of Music and Drama in Cardiff, home of the 2020 Congress. Caryl made her American debut in 1981 at Carnegie Hall, New York; her London debut at the Wigmore Hall a year later; and has performed to critical acclaim throughout the UK, Europe, the USA and the Far East. She graduated from the Welsh College of Music and Drama and gained a Master's degree from New York University; her teachers were Ann Griffiths, Marisa Robles, Pearl Chertok and Susan McDonald. At 17 years old, Caryl was the first British harpist to win a major prize at the International Harp Congress in Jerusalem, and in 1993 was invited to give a solo recital at the World Harp Congress in Copenhagen.

Caryl performed as concerto soloist with the London Philharmonic, the BBC National Orchestra in Wales, the Bournemouth Sinfonietta and the Orchestra of St John's Smith Square, and appeared twice as concert soloist with the Mozarteum Orchestra in the Grosses Festspielhaus in Salzburg. During a period as harpist with the London Philharmonic, Caryl worked with eminent conductors such as Sir Simon Rattle, Klaus Tennstedt, Leonard Slatkin, Sir Bernard Haitink and Sir Charles Mackerras, and played the Bartok Festival at the Royal Festival Hall under the baton of Sir George Solti.

Caryl's discography includes the Mozart Flute and Harp Concerto with the London Philharmonic, a solo recital entitled Clair de Lune, and a collection of chamber works with the Prometheus Ensemble named French Impressions. Her broadcasting work includes recitals for Radio 3 and three series of her own television programme for S4C.

In 2007, Caryl was Artistic Director of the 7th European Harp Symposium and in June 2016 sat on the jury of the 10th USA International Harp Competition. Caryl is a member of the board of directors of the World Harp Congress.



Caryl Thomas yw pennaeth yr adran delynau cyffrous a ffyniannus yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Caerdydd, cartref Cynhadledd 2020. Perfformiodd Caryl yn America am y tro cyntaf yn 1981 yn Neuadd Carnegie, Efrog Newydd; perfformiodd am y tro cyntaf yn Llundain yn Neuadd Wigmore flwyddyn yn ddiweddarach; ac mae hi wedi perfformio i ganmoliaeth uchel ledled y DU, Ewrop, UDA a'r Dwyrain Pell. Graddiodd o Goleg Cerdd a Drama Cymru ac ennill gradd Meistr o Brifysgol Efrog Newydd; ei hathrawon oedd Ann Griffiths, Marisa Robles, Pearl Chertok a Susan McDonald. Yn 17 oed, Caryl oedd y delynores Brydeinig gyntaf i ennill prif wobr yn y Gynhadledd Telynau Rhyngwladol yn Jerwsalem ac yn 1993 gwahoddwyd hi i roi datganiad unigol yng nghynhadledd Telynau'r Byd yn Copenhagen.

Mae Caryl wedi perfformio fel unawdydd cyngerdd gyda Cherddorfa Philharmonig Llundain, Cerddorfa Genedlaethol Cymru y BBC, Sinfonietta Bournemouth a Cherddorfa St John's Smith Square, ac mae wedi ymddangos ddwywaith fel unawdydd cyngerdd gyda Cherddorfa Mozarteum yn y Grosses Festspielhaus yn Salzburg. Yn ystod ei chyfnod fel telynores gyda Cherddorfa Philharmonig Llundain, gweithiodd Caryl gydag arweinwyr amlwg fel Syr Simon Rattle, Klaus Tennstedt, Leonard Slatkin, Syr Bernard Haitink a Syr Charles Mackerras, a chwaraeodd yng Ngŵyl Bartok yn y Royal Festival Hall dan faton Syr George Solti.

Mae catalog recordiau Caryl yn cynnwys Consierto i'r Ffliwt a'r Delyn gan Mozart gyda Cherddorfa Philharmonig Llundain, datganiad unigol dan y teitl Clair de Lune, a chasgliad o weithiau siambr gydag Ensemble Prometheus o'r enw French Impressions. Mae ei gwaith darlledu yn cynnwys datganiadau ar Radio 3 a thair cyfres o'i rhaglen deledu ei hun ar S4C.

Yn 2007, roedd Caryl yn Gyfarwyddwr Artistig 7fed Symposiwm Telynau Ewropeaidd ac ym Mehefin 2016 eisteddodd ar banel beirniaid 10fed Cystadleuaeth Telynau Rhyngwladol UDA. Mae Caryl yn aelod o fwrdd cyfarwyddwyr Cynhadledd Telynau'r Byd.

# The classes: | Y dosbarthiadau:

## What's on offer? | Beth sydd ar gynnig?

### Saturday, 9 March 2019 / Sadwrn, 9 Mawrth 2019

| | Time/Amser | Guide/Canllaw |
|---|---|---|
| **Heather Downie - Hands on harp (Saturday session for complete beginners)**<br>Have you always wanted to try the harp? Then this is one of the classes designed especially for you! Join Heather for a session of harping, where you'll learn about the strings, levers and hand position, as well as performing together at the end of the session. No previous experience required and we'll provide the harp, so there's no excuse not to join in the fun!<br><br>**Dwylo ar y delyn (Sesiwn Sadwrn i gychwynwyr pur)**<br>Ydych chi wedi bod eisiau trio'r delyn ers tro byd? Wel, dyma un o'r dosbarthiadau sy'n arbennig i chi! Ymunwch â Heather am sesiwn o delyna, ble byddwch yn dysgu am y tannau, y liferau a safle'r dwylo yn ogystal â pherfformio gyda'ch gilydd ar ddiwedd y sesiwn. Dim angen profiad blaenorol a byddwn ni'n darparu'r delyn, felly does dim esgus i beidio ag ymuno yn yr hwyl! | 09.00 - 11.00 | No previous experience required/Dim angen profiad blaenorol |
| **Claire Jones - Warm-up and practice techniques (Grades 1-5)**<br>How to warm-up constructively and get the best out of your practice sessions.<br><br>**Twymo i fyny a thechnegau ymarfer (Gradd 1-5)**<br>Sut i dwymo i fyny yn adeiladol a chael y mwyaf allan o'ch sesiynau ymarfer | 10.00 - 11.00 | Grade/Gradd 1-5 |
| **Chris Marshall - Writing for the harp (1 hour talk)**<br>Composer Chris Marshall will take you through the steps of effective harp writing and show you how to adapt music that has been given to you that isn't all harp friendly.<br><br>**Ysgrifennu i'r delyn (sgwrs 1 awr)**<br>Bydd y cyfansoddwr Chris Marshall yn eich cymryd trwy gamau ysgrifennu'n effeithiol i'r delyn a dangos i chi sut i addasu cerddoriaeth a gawsoch nad sy'n gyfeillgar iawn i'r delyn. | 10.00 - 11.00 | Grade/Gradd 5+ |
| **Claire Jones - Warm-up and practice techniques (Grade 6+)**<br>How to warm-up constructively and get the best out of your practice sessions.<br><br>**Twymo i fyny a thechnegau ymarfer (Gradd 6+)**<br>Sut i dwymo i fyny yn adeiladol a chael y mwyaf allan o'ch sesiynau ymarferr | 11.30 - 12.30 | Grade/Gradd 6+ |
| **Natasha Gale - Pop and improvisation**<br>Natasha will take a selection of simple, popular songs – think Ed Sheeran, Jess Glynne, Arriane Grande – and introduce you to vamping, chordal structure and simple improvisations.<br><br>**Pop a chwarae byrfyfyr**<br>Bydd Natasha yn dewis detholiad o ganeuon poblogaidd syml – meddyliwch am Ed Sheeran, Jess Glynne, Arriane Grande – a'ch cyflwyno i fampio, strwythur cordiau a chwarae byrfyfyr syml. | 11.30 - 13.30 | All abilities/ Pob gallu |
| **Caryl Thomas - Masterclass**<br>Masterclass with Caryl Thomas for Grade 6+ students. Your chosen piece should be prepared to performance standard.<br><br>**Dosbarth Meistr**<br>Dosbarth Meistr gyda Caryl Thomas ar gyfer myfyrwyr Gradd 6+. Dylai'r darn rydych wedi ei ddewis fod wedi ei baratoi i safon perfformio. | 11.30 - 13.30 | Grade/Gradd 6+ |

## Saturday, 9 March 2019 / Sadwrn, 9 Mawrth 2019

| | Time/Amser | Guide/Canllaw |
|---|---|---|
| **Claire Jones a Chris Marshall - Performance (1 hour talk)**<br>Do you have a piece for a performance or exam coming up soon? Learn from two established professional stage performers. A step-by-step guide: how to walk on stage; how to present yourself; how to create an atmosphere; and how to establish a rapport with your audience. | 12.30 - 13.30 | Grade / Gradd 5+ |

**Perfformio (sgwrs 1awr)**
Oes gennych chi ddarn i'w berfformio neu arholiad yn digwydd yn fuan? Dysgwch gan ddau berfformiwr llwyfan proffesiynol sefydlog. Canllaw cam wrth gam: sut i gerdded ar y llwyfan; sut i gyflwyno'ch hunan; sut i greu awyrgylch; a sut i sefydlu cyfathrebu gyda'ch cynulleidfa.

Lunch break / Amser cinio

| | | |
|---|---|---|
| **Claire Jones - Claire's concerto class**<br>Gain an insight into how Claire approaches some of the major harp concertos in the repertoire, especially the Mozart Flute and Harp Concerto. . | 14.30 - 16.30 | Grade / Gradd 7+ |

**Dosbarth consierto Claire**
Cewch fewnwelediad i sut mae Claire yn delio â rhai o'r prif gonsiertos i'r delyn yn y repertoire, yn arbennig y Consierto i Ffliwt a Thelyn gan Mozart.

| | | |
|---|---|---|
| **Chris Marshall - I got rhythm**<br>Chris will introduce you to basic rhythmic drills and demonstrate advanced rhythmic concepts, all brought together by our friend the metronome! | 14.30 - 16.30 | All abilities / Pob gallu |

**Mae gen i rhythm**
Bydd Chris yn eich cyflwyno i ddriliau rhythmig sylfaenol ac arddangos cysyniadau rhythmig uwchraddol, a'r oll yn dod at ei gilydd gan ein ffrind y metronôm.

| | | |
|---|---|---|
| **Heather Downie - Scottish pipe tunes and pipe ornamentation**<br>Try something new! Heather will talk a little about the history of pipes and their relationship with the harp, teach the ornaments and help you to play a tune or two with them. | 14.30 - 16.30 | All abilities / Pob gallu |

**Tonau pîb Albanaidd ac addurniadau pibau**
Triwch rywbeth newydd! Bydd Heather yn siarad ychydig am hanes pibau a'u perthynas gyda'r delyn, yn dysgu'r addurniadau a'ch helpu i chwarae tôn neu ddwy gyda nhw.

# Sunday, 10 March 2019 / Sul, 10 Mawrth 2019

| | Time/Amser | Guide/Canllaw |
|---|---|---|
| **Chris Marshall - Improvisation**<br>Worried about improvisation? This workshop will help you break down any concerns or barriers some performers have with improvising. Chris will suggest systems and programmes that will enhance confidence in beginners and will also help more advanced players to develop their skills further.<br><br>**Chwarae byrfyfyr**<br>Poeni am chwarae byrfyfyr? Bydd y gweithdy hwn yn eich helpu i oresgyn unrhyw bryderon neu rwystrau sydd gan rai perfformwyr ynghylch chwarae'n fyrfyfyr. Bydd Chris yn awgrymu systemau a rhaglenni a fydd yn gwella hyder mewn cychwynwyr ac hefyd yn helpu chwaraewyr mwy profiadol i ddatblygu eu sgiliau ymhellach. | 09.00 - 11.00 | Grade / Gradd 2+ |
| **Natasha Gale - Hands on harp (Sunday session for complete beginners)**<br>Never touched a harp? Then this is one of the classes designed especially for you! Join Natasha for a session of harping, where you'll learn about the strings, levers and hand position, as well as performing together at the end of the session. No previous experience required and we'll provide the harp, so there's no excuse not to join in the fun!<br><br>**Dwylo ar y delyn (Sesiwn Sul ar gyfer cychwynwyr pur)**<br>Ddim erioed wedi cyffwrdd â thelyn? Yna dyma un o'r dosbarthiadau sy'n arbennig i chi! Ymunwch â Natasha am sesiwn o delyna, ble byddwch yn dysgu am y tannau, y liferau a safle'r dwylo, yn ogystal â pherfformio gyda'ch gilydd ar ddiwedd y sesiwn. Does dim angen profiad blaenorol a byddwn ni'n darparu'r delyn, felly does dim esgus i beidio ag ymuno yn yr hwyl! | 09.00 - 11.00 | No previous experience required / Dim angen profiad blaenorol |
| **Claire Jones - Under pressure (1 hour talk)**<br>This class will help you prepare for a pressure situation such as an exam or an audition. Claire will go through everything: scheduling your time, organising your practice, what to wear and preparing what to say.<br><br>**Dan bwysau (sgwrs 1 awr)**<br>Bydd y dosbarth hwn yn eich helpu i baratoi ar gyfer sefyllfa o bwysau fel arholiad neu glyweliad. Bydd Claire yn mynd trwy bopeth: amserlennu eich amser, trefnu eich ymarfer, beth i'w wisgo a pharatoi beth i'w ddweud. | 10.00 - 11.00 | All abilities / Pob gallu |
| **Claire Jones and Chris Marshall - Ensemble playing**<br>Chris and Claire have written a portfolio of new ensemble pieces: exciting and innovative. This is an opportunity to learn some of these pieces whilst gaining valuable ensemble playing skills and chamber music techniques.<br><br>**Chwarae Ensemble**<br>Mae Chris a Claire wedi ysgrifennu portffolio o ddarnau ensemble newydd: cyffrous a mentrus. Mae hwn yn gyfle i ddysgu rhai o'r darnau hyn tra'n ennill sgiliau chwarae ensemble gwerthfawr a thechnegau cerddoriaeth siambr. | 11.30 - 13.30 | All abilities / Pob gallu |
| **Isabelle Moretti - Masterclass**<br>Masterclass with Isabelle Moretti for Grade 8+ students. Your chosen piece should be prepared to performance standard.<br><br>**Dosbarth Meistr**<br>Dosbarth Meistr gydag Isabelle Moretti ar gyfer myfyrwyr Gradd 8+. Dylai'r darn a ddewisoch fod wedi ei baratoi i safon perfformio. | 11.30 - 13.30 | Grade / Gradd 8+ |
| **Heather Downie - For the love of levers**<br>Heather gave this class at last year's Edinburgh International Harp Festival and it went down really well! She will show you different ways to use levers in tunes. Learn from a very accomplished lever harp performer.<br><br>**Cariad tuag at liferau**<br>Rhoddodd Heather y dosbarth hwn yng Ngŵyl Telyn Rhyngwladol Caeredin llynedd ac roedd yn boblogaidd iawn! Bydd yn dangos gwahanol ffyrdd i ddefnyddio liferau mewn tonau. Dysgwch gan berfformiwr telyn lifer profiadol tu hwnt. | 11.30 - 13.30 | Grade / Gradd 3+ |

Lunch break / Amser cinio

# Sunday, 10 March 2019 / Sul, 10 Mawrth 2019

| | Time/Amser | Guide/Canllaw |
|---|---|---|
| **Natasha Gale - Meditation and harp**<br>Relax! A relaxation and harp workshop, including stretching/yoga, small relaxing songs, with a focus on breathing and playing. | 14.30 - 16.30 | All abilities / Pob gallu |

**Myfyrio a'r delyn**
Ymlaciwch! Gweithdy ymlacio a'r delyn, yn cynnwys ymestyn / yoga, caneuon byr hamddenol, gyda chanolbwynt ar anadlu a chwarae.

| | Time/Amser | Guide/Canllaw |
|---|---|---|
| **Isabelle Moretti - Masterclass on Pierne's Impromptu-Caprice**<br>Isabell will give a masterclass specifically on Pierne's Impromptu-Caprice. Those participating should prepare the piece to performance standard. | 14.30 - 16.30 | |

**Dosbarth Meistr ar Impromptu-Caprice gan Pierne**
Bydd Isabelle yn rhoi dosbarth meistr yn benodol ar Impromptu-Caprice gan Pierne. Dylai'r rhai sy'n cymryd rhan baratoi'r darn i safon perfformio.

| | Time/Amser | Guide/Canllaw |
|---|---|---|
| **Heather Downie - Scottish lullabies**<br>A slower-moving class, ideally suited to those not used to learning by ear. Scotland has many beautiful lullabies that can be played and enjoyed on the harp. | 14.30 - 16.30 | Grade / Gradd 2+ |

**Hwiangerddi Albanaidd**
Dosbarth arafach yn ddelfrydol ar gyfer y rheiny sydd heb arfer â dysgu â'r glust. Mae gan Yr Alban lawer o hwiangerddi hyfryd a ellir eu chwarae a'u mwynhau ar y delyn.

# Tickets
## and general information

### Booking tickets
Tickets for the events and the concerts may be booked by post using the enclosed form or look on-line at www.camacharps.co.uk (closing date Friday, 1 March 2019).

### Masterclasses
The masterclasses are an opportunity for advanced students to perform a piece (or part of a piece) in front of an audience and to have the benefit of constructive criticism and helpful advice from one of the tutors: Isabelle Moretti or Caryl Thomas. Each participant will have 20 minutes. There is no charge for the masterclasses, but places for those wishing to perform are limited. Please apply early by e-mailing Elen at info@camacharps.co.uk no later than 22 February 2019. Entry to the masterclasses for the audience is also free.

### Camac harp regulations
A Camac harp technician will be available on both days for regulating Camac lever and pedal harps (not other makes). This is a free service, but replacement strings and levers will be charged for. Please note that places are strictly limited and must be booked in advance. The first 10 spaces are reserved for those booking a weekend/day ticket. Please book early to avoid disappointment by telephoning Elen on 029 2062 0900.

### Hands on harp for beginners
The hands on harp courses are designed for those who have never played a harp before and would like to try. They are suitable for children and adults of all ages. We will provide a harp for each participant on these introductory courses.

### Availability of harps
Please bring your own harp, stool and stand if you are participating in a workshop (except for the hands on harp courses where a harp will be provided). If this is not possible, please contact us in advance as we will have a small number of harps available for loan on the day.

### Information for parents/guardians
Parents/guardians of a child joining a class will be required to complete a form at registration with contact details in the event of illness, etc.

### Venue
The venue (apart from the concert by Isabelle Moretti) is the Cardiff School of Management which is part of the Cardiff Metropolitan University campus on Western Avenue, Cardiff CF5 2YB. There is easy access direct from Western Avenue and you can unload your harp close to the venue.

### Car parking
Car parking is available on the campus at a charge of £0.50 per day. Please make sure that you pay and display as soon as you arrive.

### Refreshments
A café will be open until 15.30 both days. Coffee, tea etc will also be available from vending machines.

### Enquiries
All enquiries, please, to Elen Vining at Camac Harps Telynau Vining Wales | Cymru

Address: 116B Pantbach Road, Birchgrove, Cardiff CF14 1UE.

Telephone: 029 2062 0900

E-mail: info@camacharps.co.uk

www.camacharps.co.uk

# Tocynnau
## a gwybodaeth gyffredinol

### Archebu tocynnau
Gallwch archebu tocynnau ar gyfer y digwyddiadau a'r cyngherddau nos drwy'r post gan ddefnyddio'r ffurflen bwrpasol neu ar-lein yn www.camacharps.co.uk (dyddiad cau Dydd Gwener, 1 Mawrth 2019).

### Dosbarthiadau Meistr
Mae'r dosbarthiadau meistr yn gyfle i fyfyrwyr berfformio darn (neu ran o ddarn) o flaen cynulleidfa a chael beirniadaeth adeiladol a chyngor buddiol gan un o'r tiwtoriaid: Isabelle Moretti neu Caryl Thomas. Caiff pob un sy'n cymryd rhan 20 munud. Does dim rhaid talu am y dosbarth meistr, ond nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael. Gwnewch gais yn gynnar drwy e-bostio Elen ar info@camacharps.co.uk dim hwyrach na 22 Chwefror 2019 . Mae mynediad i'r dosbarthiadau meistr ar gael am ddim i'r gynulleidfa hefyd a does dim rhaid archebu lle yn y gynulleidfa.

### Cymhwyso telynau Camac
Bydd un o dechnegwyr telynau Camac ar gael ar y ddau ddiwrnod i gymhwyso telynau lifer a thelynau pedal Camac (nid gwneuthurwyr eraill). Gwasanaeth di-dâl yw hwn, ond byddwn yn codi am dannau a liferi newydd. Sylwch mai nifer cyfyngedig yn unig sydd ar gael a bod rhaid ichi drefnu ymlaen llaw. Mae'r 10 lle cyntaf wedi'u cadw i'r rhai sy'n archebu tocyn penwythnos/dydd neu docyn i'r cyngerdd. Archebwch yn gynnar i beidio â chael eich siomi, drwy ffonio Elen ar 029 2062 0900.

### Dwylo ar y delyn i ddechreuwyr
Mae'r cyrsiau ymarferol yma wedi'u bwriadu a gyfer y rhai sydd heb ganu telyn o'r blaen ac a hoffai roi cynnig arni. Maen nhw'n addas i blant ac oedolion o bob oed. Byddwn yn darparu telyn i bawb sy'n cymryd rhan yn y cyrsiau cyflwyno hyn.

### Argaeledd telynau
Dewch â'ch telyn, eich stôl a'ch stand eich hun os ydych yn cymryd rhan mewn gweithdy (heblaw'r cyrsiau dwylo ar y delyn i ddechreuwyr lle bydd telyn yn cael ei darparu). Os nad yw hyn yn bosibl, cysylltwch â ni ymlaen llaw, gan fod nifer fach o delynau ar gael i'w benthyg am y diwrnod.

### Gwybodaeth i rieni/gwarcheidwaid
Bydd yn ofynnol i rieni/gwarcheidwaid plant sy'n ymuno â dosbarth lenwi ffurflen wrth gofrestru i roi manylion cysylltu rhag ofn salwch, ayyb.

### Lleoliad
Y lleoliad (arwahan i gyngerdd Isabelle Moretti) yw Ysgol Reoli Caerdydd, sy'n rhan o gampws Prifysgol Metropolitan Caerdydd ar Rodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YB. Mae yna fynedfa hawdd oddi ar Rodfa'r Gorllewin a gallwch ddadlwytho'ch telyn yn agos i'r lleoliad.

### Maes parcio
Mae maes parcio ar gael ar y campws am ffi o £0.50 y dydd. Gofalwch dalu ac arddangos eich tocyn ar unwaith ar ôl cyrraedd.

### Lluniaeth
Fe fydd cafe ar agor tan 15.30 bob dydd. Mae coffi, te, ac ati ar gael o beiriannau gwerthu.

### Ymholiadau
Pob ymholiad i Elen Vining, os gwelwch yn dda, yn Telynau Vining Harps

Cyfeiriad: 116B Pantbach Road, Llwynbedw, Caerdydd CF14 1UE.

Ffôn: 029 2062 0900

Ebost: info@camacharps.co.uk

www.camacharps.co.uk

# The programme | Y rhaglen

## Saturday 9 March 2019 / Dydd Sadwrn 9 Mawrth 2019

| | Foyer/Cyntedd | Room/Ystafell 1 | Room/Ystafell 2 | Room/Ystafell 3 | Room/Ystafell 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| 08.00 - 09.00 | Registration/Cofrestru | | | | |
| 09.00 - 11.00 | Harp exhibition • Harp sales • Harp rentals • Music • Accessories<br><br>Arddangosfa delynau • Gwerthu telynau • Llogi telynau • Cerddoriaeth • Ategolion | **Claire Jones**<br>Warm-up and practice techniques (starting at 1000) / Twymo i fyny a thechnegau ymarfer (dechrau am 1000)<br>Grades/Gradd 1-5 | **Heather Downie**<br>Hands on harp Complete beginners / Dwylo ar y delyn Cychwynwyr pur | **Chris Marshall**<br>Writing for the harp (talk at 1000) / Ysgrifennu i'r delyn (sgwrs am 1000)<br>Grade/Gradd 5+ | Camac harp technician<br><br>Technegydd telyn Camac |
| 11.00 - 11.30 | | Morning break/Amser coffi | | | |
| 11.30 - 13.30 | | **Claire Jones**<br>Warm-up and practice techniques / Twymo i fyny a thechnegau ymarfer<br>Grade/Gradd 6+<br><br>**Claire Jones & Chris Marshall**<br>Performance (talk at 1230) / Perfformio (sgwrs am 1230)<br>All abilities/Pob gallu | **Natasha Gale**<br>Pop and improvisation / Pop a chwarae byrfyfyr<br>All abilities/Pob gallu | **Caryl Thomas**<br>Masterclass / Dosbarth Meistr<br>Grade/Gradd 6+ | Camac harp technician<br><br>Technegydd telyn Camac |
| 13.30 - 14.30 | | Lunch break/Amser cinio | | | |
| 14.30 - 16.30 | | **Claire Jones**<br>Claire's concerto class / Dosbarth consierto Claire<br>Grade/Gradd 7+ | **Chris Marshall**<br>I got rhythm / Mae gen i rhythm<br>All abilities/Pob gallu | **Heather Downie**<br>Scottish pipe tunes and pipe ornamentation / Tonau pîb Albanaidd ac addurniadau pibau<br>All abilities/Pob gallu | Camac harp technician<br><br>Technegydd telyn Camac |
| From 16.30 | **Move to National Museum Cardiff, Cathays Park, Cardiff CF10 3NP** (own car or public transport) / **Symud i Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP** (eich car eich hun neu drafnidiaeth gyhoeddus) | | | | |
| 19.00 - 20.30 | Concert/Cyngerdd:<br>**Isabelle Moretti**<br>**at National Museum Cardiff** (doors open 1815) / **yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd** (drysau'n agor am 1815) | | | | |

# The programme | Y rhaglen

## Sunday 10 March 2019 / Dydd Sul 10 Mawrth 2019

| | Foyer/Cyntedd | Room/Ystafell 1 | Room/Ystafell 2 | Room/Ystafell 3 | Room/Ystafell 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| 08.00 - 09.00 | Registration/Cofrestru | | | | |
| 09.00 - 11.00 | Harp exhibition • Harp sales • Harp rentals • Music • Accessories<br><br>Arddangosfa delynau • Gwerthu telynau • Llogi telynau • Cerddoriaeth • Ategolion | **Claire Jones**<br>Under pressure (talk at 1000) / Dan bwysau (sgwrs am 10.00)<br>All abilities/Pob gallu | **Chris Marshall**<br>Improvisation / Chwarae byrfyfyr<br>Grade/Gradd 2+ | **Natasha Gale**<br>Hands on harp / Dwylo ar y delyn<br>Complete beginners / Cychwynwyr pur | Camac harp technician<br><br>Technegydd telyn Camac |
| 11.00 - 11.30 | | Morning break/Egwyl bore | | | |
| 11.30 - 13.30 | | **Claire Jones & Chris Marshall**<br>Ensemble playing / Chwarae ensemble<br>All abilities/Pob gallu | **Isabelle Moretti**<br>Masterclass / Dosbarth Meistr<br>Grade/Gradd 8+ | **Heather Downie**<br>For the love of levers / Cariad tuag at liferau<br>Grade/Gradd 3+ | Camac harp technician<br><br>Technegydd telyn Camac |
| 13.30 - 14.30 | | Lunch break/Amser cinio | | | |
| 14.30 - 16.30 | | **Natasha Gale**<br>Meditation and harp / Myfyrio a'r delyn<br>All abilities/Pob gallu | **Isabelle Moretti**<br>Masterclass on Pierne's Impromptu-Caprice / Dosbarth Meistr ar Impromptu-Caprice gan Pierne | **Heather Downie**<br>Scottish lullabies / Hwiangerddi Albanaidd<br>Grade/Gradd 2+ | Camac harp technician<br><br>Technegydd telyn Camac |
| 17.00 - 18.00 | Closing Concert/Cyngerdd olaf: **Claire Jones and Chris Marshall** | | | | |
| 18.30 | Festival ends/Yr ŵyl yn gorffen | | | | |




CAMAC HARPS
TELYNAU VINING WALES•CYMRU

# Penwythnos Telynau Camac Caerdydd

Claire Jones

## 9-10 Mawrth 2019

Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Rodfa'r Gorllewin - Caerdydd - CF5 2YB

•penblwydd• 20fed

## DIGWYDDIADAU

Arddangosfa delynau
Cyngherddau
Gweithdai
Ensembles
Dosbarthiadau meistr
Dwylo ar y delyn i ddechreuwyr

Making harps in France since 1972

RHAGLEN

www.camacharps.co.uk

THE EXCELLENCE OF FRENCH SAVOIR-FAIRE • ENTREPRISE DU PATRIMOINE VIVANT • EPV